WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2018-19
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019
Cyfeirnod y ddogfen: 1285A2019-20

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan David Wilson a Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodir gan ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith trwy ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian lywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff noddedig a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu gwasanaeth adrodd cymesur â phwyslais ar y cyhoedd ynglŷn â chadwraeth adnoddau cyhoeddus, a darparu dirnadaeth a hyrwyddo gwelliant trwy hynny.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2018-19 4

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, ond mae'n wynebu heriau wrth symud ymlaen 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19 6

Atodiadau

Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 17

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 18

Atodiad 3 – argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 2018-19 24

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2018-19

1 I benderfynu ar ystod a natur y gwaith y byddem yn ei wneud yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ystyried faint yr ydym yn ei wybod eisoes o'r holl waith archwilio ac arolygu blaenorol ac o ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys dulliau adolygu a gwerthuso Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ei hun. Ar gyfer 2018-19, gwnaed gwaith asesu gwelliant, prosiect asesu risg a sicrwydd, a gwaith ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob cyngor. Mewn rhai cynghorau, gwnaethom ni ategu'r gwaith hwn ag archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2018-19.

2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn Arddangosyn 2.

## Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, ond mae'n wynebu heriau wrth symud ymlaen

3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a fydd yn galw am sylw parhaus yn y tymor byr a chanolig er mwyn bod mewn sefyllfa sefydlog a chynaliadwy.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu

â’r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o’n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Disgrifiad o'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny'n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2019 | **Asesiad Risg a Sicrwydd**<br>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i'r Cyngor:<br>• rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;<br>• rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus; a<br>• gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyrraedd. | **Yn deillio o'r prosiect hwn, nodwyd gennym y pynciau canlynol i'w cynnwys yn ein Cynllun Archwilio yn y Cyngor ar gyfer 2019-20:**<br>• Adolygiad o gydnerthedd y Cyngor, sy'n cynnwys:<br>▪ monitro cynnydd y Cyngor o ran ymateb i'n gwaith Cefnogi Cadernid Ariannol a gwaith archwilio ac arolygu arall;<br>▪ trefniadau'r Cyngor i reoli capasiti a gallu ei weithluoedd mewn modd cynaliadwy; a<br>▪ trefniadau'r Cyngor i reoli gwelliant cynaliadwy.<br>• Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor: Prosiect sy'n gyffredin i'r holl gynghorau lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil heriau presennol a'r rhai y disgwylir yn y dyfodol.<br>• Adolygiad o'r Gwasanaeth Adnoddau Cyfrannol: Bydd yr adolygiad hwn yn dilyn argymhellion a | Amherthnasol |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015 ar y Gwasanaeth Adnoddau Cyfrannol. Caiff yr adolygiad ei gynnal yn y pedwar cyngor lleol sy'n aelod o'r Gwasanaeth Adnoddau Cyfrannol. | |
| Mai 2019 | **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br>Archwiliad i ba raddau mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd y cam canlynol:<br>**Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth.** Mae'r cam hwn yn cefnogi amcanion llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol:<br>• **datblygu dull partneriaeth o leihau a lleddfu effeithiau tlodi**; ac<br>• **ymyrryd yn gynnar i atal problemau rhag gwaethygu.** | **Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam 'Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach**:<br>• Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr am y materion a'r heriau byrdymor a hirdymor ond nid oes ganddo strategaeth hirdymor gynaliadwy;<br>• Mae'r Cyngor yn deall anghenion teuluoedd ac mae'n gweithio gyda hwy i gyfyngu ar eu problemau neu i'w hatal rhag gwaethygu, ond gallai rhaglenni ataliol gael eu defnyddio'n fwy eang ar draws gwasanaethau'r Cyngor;<br>• Er bod y Cam yn cysylltu â strategaethau, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant sydd â pherchnogaeth arno o hyd; mae angen i'r Cyngor wneud mwy i harneisio cymorth cyfarwyddiaethau eraill i roi cymorth i'w gyflawni; | Ni wnaethom unrhyw gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad o archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ond fe wnaethom amlygu meysydd i'w datblygu y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu arnynt. Mae'r adroddiad ar gael ar ein **gwefan**. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | • Mae cydweithio'n elfen allweddol o ddull ymyrryd yn gynnar ac atal y Cyngor ond mae'n ymwybodol bod mwy ganddo i'w wneud; a<br>• Gall y Cyngor ddangos rhai cryfderau o ran ei ddull o gynnwys rhieni a rhanddeiliaid eraill; ceir meysydd y gallai'r Cyngor eu cryfhau ymhellach. | |
| Ionawr 2019 | **Llythyr archwilio blynyddol 2017-18**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i holl gyfrifoldebau statudol hyd yn hyn o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau;<br>• Er bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, mae lle o hyd i wneud rhagor o welliannau;<br>• Mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol, fodd bynnag mae'r her ym Mlaenau Gwent yn sylweddol. O gofio ei lefel o gronfeydd wrth gefn a'i bwysau ariannol, bydd angen i'r Cyngor ddatblygu diwylliant ariannol cryfach os yw am barhau i fod yn gadarn yn ariannol; a<br>• Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon neu systemau ariannol allweddol | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad perfformiad lleol ar sail risg** | | | |
| Mai 2019 | **Gwasanaethau Hamdden**<br>Adolygiad o adolygiad mewnol y Cyngor o'i wasanaethau hamdden sydd ar gontract allanol.<br>Mae'r adroddiad ar gael ar ein **gwefan**. | **Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol i sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy i ddiwallu anghenion ei drigolion:**<br>• mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion ers rhoi ei wasanaethau hamdden ar gontract allanol yn 2014, ond nid yw'r model hwn wedi cyflawni fel y bwriadwyd yn wreiddiol ac mae'n wynebu heriau ariannol parhaus;<br>• Yn 2018, cynhaliodd y Cyngor adolygiad llawn o'i wasanaethau hamdden, ond roedd amserlenni yn rhy dynn i ddatblygu'r opsiynau'n llawn a bu'n rhaid ymestyn yr amserlen adolygu; ac<br>• mae gan y Cyngor amser cyfyngedig nawr i ddatblygu a darparu model cynaliadwy. | **Dysgu o'r trefniant gwasanaethau hamdden presennol**<br>C1 Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r trefniant Ymddiriedolaeth presennol yn cael eu hystyried wrth sefydlu'r trefniant gwasanaethau hamdden newydd; gan gynnwys:<br>• sicrhau bod gan swyddogion ac Aelodau ddealltwriaeth eglur o gyfrifoldebau'r Cyngor a nodir mewn trefniadau cyfreithiol ar gyfer unrhyw wasanaethau a roddir ar gontract allanol;<br>• egluro a chytuno ar ddisgwyliadau datblygu gwasanaeth yn ogystal â thargedau ariannol o'r cychwyn;<br>• sicrhau bod targedau ariannol yn realistig ac yn gyflawnadwy; a<br>• monitro perfformiad yn brydlon fel y gall y Cyngor ragweld unrhyw berfformiad gwael posibl neu bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol y trefniant yn y dyfodol mewn da bryd i gymryd camau cywiro. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | **Gwersi y gall y Cyngor fanteisio arnynt o'r broses adolygu gwasanaethau hamdden i hysbysu ei adolygiadau gwasanaeth eraill:**<br>C2 Sicrhau bod rhaglen y Cyngor o adolygiadau gwasanaeth yn gweithio yn unol â chwmpasau prosiect realistig; gan gynnwys drwy sicrhau:<br>• bod amserlenni yn realistig ac yn gyflawnadwy;<br>• bod cyfranogiad aelodau addas a phrydlon i ganiatáu craffu effeithiol;<br>• bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gwblhau adolygiadau gwasanaeth;<br>• bod opsiynau wedi'u diffinio'n dda; a<br>• bod yr opsiynau a gynigir wedi'u costio'n llawn a bod amserlenni arfaethedig wedi'u cynnwys ar gyfer gweithredu i gynorthwyo proses gwneud penderfyniadau effeithiol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | **Paratoi ar gyfer model(au) darparu arall:**<br>C3 Rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau parhad gwasanaethau hamdden a phontio didrafferth i fodel darparu arall cynaliadwy ac effeithlon. |
| Mai 2019 | **Adolygiad Thematig – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau: Ymgysylltu â’r Gymuned**<br>Adolygiad o ba un a yw anghenion, profiadau a dyheadau pobl leol yn llywio cynllun a chyflawniad ymarferion ymgysylltu â’r gymuned y Cyngor wrth wneud newidiadau i wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn well. | **Mae pobl leol yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â’r gymuned er eu bod bob amser yn gallu cymryd rhan mewn ffordd effeithiol sy’n cael effaith:**<br>• Gall pobl leol ymgysylltu â’r Cyngor mewn llawer o ffyrdd ond nid yw’r dulliau hyn bob amser wedi’u datblygu neu ar gael gan ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaethau;<br>• Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn fodlon ag ansawdd dull y Cyngor o ymgysylltu â’r gymuned wrth wneud newidiadau i wasanaethau er y dywedodd llawer nad oedden nhw’n gallu gofyn am eglurdeb ynghylch y cwestiwn pe byddai angen;<br>• Ceir rhai rhwystrau i ymgysylltiad a all gyfyngu ar gyfranogiad lleol; ac<br>• Mae tuedd i’r cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau fod wedi’i gyfyngu gan amser ac yn benodol i bwnc arbennig. | • sicrhau bod ymgysylltu â’r gymuned wedi’i dargedu i gipio barn cynifer o bobl â phosibl y bydd y newid i’r gwasanaeth yn effeithio arnyn nhw;<br>• hyrwyddo a defnyddio cymorth y Tîm Ymgysylltu Corfforaethol i sicrhau’r manteision mwyaf posibl o’r ymgysylltu;<br>• gwerthuso pob dull ymgysylltu i sefydlu pryd y mae’n fwyaf priodol i’w ddefnyddio;<br>• datblygu dull wedi’i gydlynu o ymgysylltu â’r gymuned sy’n dileu’r dull adrannau unigol a arferir mewn rhannau i’r Cyngor;<br>• atgyfnerthu pwysigrwydd ymgysylltu â’r gymuned yn wirioneddol ymhlith staff ar bob lefel yn y Cyngor;<br>• datblygu ffyrdd newydd, arloesol ac effeithlon o ymgysylltu â phobl leol trwy ofyn iddyn nhw am eu |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | syniadau a’u cynnwys wrth ddatblygu dulliau newydd;<br>• datblygu dull ' byw ' o ymgysylltu â'r gymuned gyda deialog, adborth a chyfathrebu parhaus ar draws y Cyngor – lle nad yw ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei reoli fel digwyddiad ynysig;<br>• nodi pobl leol sydd, oherwydd eu rolau, ar hyn o bryd yn gallu cysylltu â nifer fawr o bobl yn ddyddiol a allai, o bosibl, weithio gyda'r Cyngor i'w helpu i ymgysylltu'n fwy effeithiol megis grwpiau ffydd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;<br>• rhannu dysgu o weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo arfer da ac atal ailadrodd arferion gwael;<br>• adolygu sut y gall y Cyngor ymgysylltu'n fwyaf effeithiol â phobl â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau cynhwysiant priodol yn y broses a gwerth am arian o'u hymwneud; a<br>• gwella amseriad a thryloywder ymgysylltu â'r gymuned a'r broses o wneud penderfyniadau. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Mai 2018 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o welliant blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim |
| Rhagfyr 2018 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o berfformiad.** Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br><br>Mehefin 2018 | Adroddiad Arolygiad Gwasanaeth Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | **Asesiad cyffredinol**<br>Gofelir am blant mewn lleoliadau sefydlog gan ofalwyr maeth sy'n darparu profiadau a chyfleoedd da i'r plant ac sydd wedi ymrwymo i'w cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dywedir bod gofalwyr maeth yn derbyn lefel dda o gymorth ar y cyfan gan y gweithwyr cymdeithasol sy'n eu goruchwylio. Gwelwyd bod diwylliant cadarnhaol a brwdfrydig iawn yn y gwasanaeth maethu; roedd hyn yn cynnwys y | **Argymhellion ar gyfer gwella**<br>Yn ystod yr arolygiad hwn, fe wnaethom gynghori'r person cofrestredig bod angen gwelliannau i fodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn mewn cysylltiad â'r canlynol:<br>• trefniadau sicrwydd ansawdd – sefydlu a chynnal system i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 42 (1)); |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
| --- | --- | --- | --- |
| | | gofalwyr maeth, staff yn y tîm maethu, rheolwyr ac uwch reolwyr. Cawsom sylwadau cadarnhaol iawn gan blant am eu gofalwyr.<br><br>Yn sgil gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig disgwylir i'r awdurdod lleol gwblhau ceisiadau am ofal o fewn cyfnod o 26 wythnos. Bu cynnydd hefyd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a galw cynyddol am leoliadau. O ganlyniad i hyn, mae'r gwasanaeth maethu dan bwysau, ac mae mwy o bwyslais ar asesiadau o bobl gysylltiedig. Mae hyn wedi effeithio ar weithgarwch recriwtio ac ar drefniadau ar gyfer y cymorth parhaus a roddir i ofalwyr maeth.<br>Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae mentrau rhanbarthol yn mynd rhagddynt ac adnoddau ychwanegol ar gael i recriwtio gofalwyr maeth. Mae angen camau pellach i sicrhau effeithiolrwydd trefniadau sicrwydd ansawdd y gwasanaeth er mwyn ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth. | • ymgynghoriad â'r ystod lawn o randdeiliaid a'r dadansoddiad o hynny a dadansoddiad llawn a chamau gweithredu mewn cysylltiad â therfyn lleoliadau (Rheoliad 42 (2));<br>• hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth: (Rheoliad 17 (1));<br>• mae'n rhaid i'r panel maethu ystyried ac asesu'r holl wybodaeth a roddir iddo er mwyn sicrhau bod plant wedi'u diogelu. (Rheoliad 21 (1A) (a)); a<br>• dylai'r gwasanaeth maethu sefydlu trefn ar gyfer monitro presenoldeb a chynnydd yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol plant sydd wedi'u lleoli â gofalwyr maeth. (Rheoliad 16 (2) (a));<br>**Argymhellion eraill:**<br>• sicrhau bod safbwyntiau plant a gweithwyr cymdeithasol wedi'u cofnodi a'u hystyried mewn adolygiadau gofalwyr maeth.<br>• adolygu'r cymorth a'r trefniadau hyfforddi ar gyfer gofalwyr cysylltiedig i sicrhau y diwellir eu hanghenion yn briodol.<br>• adolygu asesiadau risg a phrosesau gofal diogel a sicrhau y rhoddir yr |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | holl ddogfennau angenrheidiol i'r gofalwyr maeth yn brydlon i atgyfnerthu trafodaethau mewn cysylltiad â strategaethau i ddarparu gofal diogel.<br>• pan gaiff dau oedolyn ar un aelwyd eu cymeradwyo yn gyd-ofalwyr, dylai'r ddau gwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus.<br>• dylai'r cofnod o gyfarfodydd paru roi digon o fanylion i fod yn dystiolaeth o drefniadau cadarn i wneud penderfyniadau. Dylai gynnwys effaith bosibl y lleoliad ar unrhyw blant sydd yna eisoes. Hefyd, pan fo bylchau wedi'u nodi o ran paru, dylai'r gwasanaeth maethu gofnodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant.<br>• hwyluso gweithrediad polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru.<br>• hwyluso'r broses o lunio llawlyfr i ofalwyr maeth er mwyn i'r gofalwyr feddu ar yr holl wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau.<br>• dylai'r gwasanaeth allu dangos tystiolaeth glir bod lefel yr oruchwyliaeth a'r cymorth yn cyfateb |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | i anghenion y gofalwyr maeth unigol. Dylid rhoi trefniadau ar waith i arfarnu aelodau'r panel maethu.<br>• dylid cymryd camau i gynyddu'r ystod o brofiad sydd gan aelodau'r panel maethu.<br>• dylai cofnodion trafodaethau'r panel ddangos tystiolaeth gyson o'r broses gwneud penderfyniadau.<br>• dylai'r gwasanaeth maethu ystyried canllawiau strategol dilynol Llywodraeth Cymru 'Mwy Na Geiriau' ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. Dylai'r holl ddarparwyr gofal cymdeithasol gynnwys gwybodaeth am eu lefel o ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn y datganiad o ddiben a chanllaw'r person ifanc, ac adlewyrchu hyn yn yr adolygiad blynyddol o ansawdd gofal. |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cyng. Nigel John Daniels

Arweinydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Canolfan Dinesig
Glyn Ebwy
Gwent
NP23 6XB

**Cyfeirnod:** 1030A2019-20

**Dyddiad cyhoeddi:** 18 Ionawr 2019

Annwyl Cynghorydd Daniels

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i holl gyfrifoldebau statudol hyd yn hyn o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;

- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y cod). Mae'r cod hwn wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 25 Medi 2018, adroddais i'r Pwyllgor Archwilio ein bod wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'n profion archwilio ar eich datganiadau ariannol ar gyfer 2017-18. Fodd bynnag, o ganlyniad i rai ystyriaethau archwilio a oedd yn parhau, nid oeddem yn gallu darparu barn archwilio ar gyfrifon 2017-18. Adroddwyd gennym hefyd ein bod yn methu o hyd â darparu barn archwilio ar gyfrifon 2016-17 am yr un rhesymau. Mae'r materion hyn yn parhau heb eu datrys, felly nid wyf wedi gallu cyflwyno barn archwilio ar gyfer yr un o'r blynyddoedd ariannol hynny, na thystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau.

Mae'n ofynnol i'r Cynghorau gymeradwyo a chyhoeddi eu datganiadau ariannol erbyn 30 Medi. Bodlonodd y Cyngor ei rwymedigaethau statudol i ystyried a chyhoeddi'r datganiadau ariannol erbyn y dyddiad hwn. Fodd bynnag, nid oeddent wedi'u cymeradwyo, ac ar hyn o bryd nid ydynt wedi'u cymeradwyo o hyd. Maent yn aros am dystysgrif gan y Swyddog Adran 151 ac i farn archwilio gael ei chynnig.

Yn ein hadroddiad ym mis Medi 2018 cafwyd sylwadau hefyd ynghylch yr her sy'n wynebu'r holl awdurdodau lleol wrth ateb y terfynau amser cynharach i gau'r cyfrifon. Ychydig o ddiwrnodau yn gynharach yw'r terfyn amser ar gyfer ardystio yn 2018-19, ond erbyn 2021 bydd angen paratoi'r cyfrifon drafft erbyn 31 Mai. Mae llawer o'r cynghorau ymhell ar eu ffordd at gyrraedd y targed hwn eisoes. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo gynlluniau priodol ar waith i ganiatáu i'w cyfrifon gael eu llunio o fewn yr amserlen hon a byddwn yn gweithio gyda swyddogion i'w cefnogi i gyrraedd y nod hwn.

## Er bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, mae lle o hyd i wneud rhagor o welliannau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dwyn sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau

wedi amlygu'i hun hyd yma neu feysydd y gellid eu gwella pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol, fodd bynnag mae'r her ym Mlaenau Gwent yn sylweddol.  O gofio ei lefel o gronfeydd wrth gefn a'i bwysau ariannol, bydd angen i'r Cyngor ddatblygu diwylliant ariannol cryfach os yw am barhau i fod yn gadarn yn ariannol

### Mae cronfeydd refeniw y gellir eu defnyddio yn parhau i ostwng

Cyllid cyni sy'n parhau i fod yr her fwyaf sylweddol i'r holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac mae pwysau ariannol yn debygol o barhau yn y tymor canolig.

Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom adrodd ar drefniadau cadernid ariannol y Cyngor a daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cytuno ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chronfeydd wrth gefn o 5% ond bydd angen iddo ddatblygu diwylliant ariannol cryfach er mwyn parhau i fod yn gadarn yn ariannol. Crynhowyd ein canfyddiadau, ynghyd â'n saith cynnig ar gyfer gwella i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw, yn ein Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Medi 2018, ac adroddwyd ar hyn yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor. Mae'r Adroddiad ar gael ar ein gwefan yma.


Yn 2017-18 cafodd y Cyngor ostyngiad o 0.4% i'w Setliad Refeniw gan Lywodraeth Cymru. Pennodd y Cyngor gyllideb refeniw o £144 miliwn, â'r bwriad o ddefnyddio £1.3 miliwn o gronfeydd wedi'u neilltuo. Y sefyllfa alldro oedd diffyg refeniw o £0.66 miliwn. Yn ogystal â'r sefyllfa o ddiffyg ariannol yn ystod y flwyddyn, cafwyd gostyngiad o £2.39 miliwn mewn cronfeydd refeniw y gellir eu defnyddio (cyfuniad o'r Gronfa Gyffredinol a chronfeydd refeniw wedi'u neilltuo).  Roedd cronfeydd refeniw y gellir eu defnyddio wedi gostwng i £10.5 miliwn ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Cyngor wedi pennu targed i'w hun i gadw o leiaf 4% o wariant alldro refeniw yn y Gronfa Gyffredinol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, roedd ychydig llai na £5.5 miliwn yn y Gronfa Gyffredinol, sef 4.1% o Wariant Alldro Refeniw.  Y sefyllfa gymharol ar gyfer 31 Mawrth 2017 oedd £5.9 miliwn, neu 4.3%.

Rydym wedi cymharu lefel y Cronfeydd Refeniw y gellir eu defnyddio ar ffurf canran o'r Gwariant Refeniw Gros yn yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac mae gan CBS Blaenau Gwent y lefel isaf o'r cronfeydd hyn. Cyflwynir hyn ar ffurf graffeg yn Arddangosyn 1 ac Arddangosyn 2:

## Arddangosyn 1


Blaenau Gwent, y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn a'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Neilltuo fel canran o'r Gwariant Refeniw Gros




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Isafswm | 2.52 | 3.34 | 3.95 | 4.29 | 3.85 | 3.52 | 3.91 | 5.05 | 5.55 | 4.63 |
| Uchafswm | 14.15 | 15.58 | 21.49 | 17.81 | 18.47 | 20.16 | 21.79 | 23.37 | 23.38 | 23.62 |
| Blaenau Gwent | 11.51 | 10.17 | 9.25 | 8.69 | 7.59 | 7.24 | 6.82 | 7.11 | 5.9 | 4.63 |
| Cyfartaledd Cymru | 8.14 | 9.06 | 11.07 | 10.71 | 10.89 | 11.44 | 11.47 | 10.95 | 11.41 | 11.44 |

## Arddangosyn 2

Y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn a'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Neilltuo fel canran o'r Gwariant Refeniw Gros



Mae'n arbennig o bwysig ystyried yn ofalus falansau'r cronfeydd wrth gefn a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ariannol, gan nad yw'n addas dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau parhaus. Pan fo cronfeydd wrth gefn wedi'u dileu, mae'n rhaid nodi ffynonellau cyllid neu arbedion eraill.

### Mae gan y Cyngor gyfran uchel o rwymedigaethau cyfredol o'u cymharu ag asedau cyfredol

Ar hyn o bryd, arfer y Cyngor yw trefnu benthyciadau tymor byr i ddisodli ei fenthyciadau hirdymor wrth iddyn nhw ddod i derfyn.  Mae swyddogion wedi gwneud y penderfyniad hwn (â chyngor gan ymgynghorwyr allanol) gan fod y cyfraddau llog sydd ar gael ar fenthyciadau tymor byr yn fwy ffafriol ar hyn o bryd. O ganlyniad i hyn, ar 31 Mawrth 2018 mae gan y Cyngor lefel uchel o fenthyciadau tymor byr gwerth £68.4 miliwn, sy'n golygu mai ei gymhareb gyfredol (cyfran yr asedau cyfredol i'w rwymedigaethau cyfredol) ar yr adeg honno oedd 0.28. Yn gyffredinol, byddai unrhyw gymhareb gyfredol o dan 1% yn arwydd o achos dros bryderu, oherwydd bod hyn yn golygu, mewn egwyddor, na all endid gyflawni ei rwymedigaethau cyfredol o'i asedau hylifol. Er ein bod yn deall bod gan y Cyngor y dewis ar hyn o bryd i gael benthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, a bod hyn yn lliniaru'r risg rhywfaint, dylai'r Cyngor ystyried a yw'r lefel hon o fenthyca tymor byr yn briodol ac wedi'i hasesu o ran risg.

### Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darogan diffyg alldro refeniw yn 2018/19

Yn 2018-19, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb o £145.4 miliwn ac mae'n bwriadu defnyddio mwy o'r cronfeydd trwy ddefnyddio £0.8 miliwn yn ystod y flwyddyn i fantoli'r gyfriflen. Erbyn diwedd mis 6 (Medi 2018) mae'r adroddiad cyllideb diweddaraf yn darogan gorwariant o £1.17 miliwn o ganlyniad, i raddau helaeth, i ddarogan gorwariant ar Wasanaethau Plant (yn sgil cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n derbyn gofal). Mae adroddiad mis 6 yn dangos bod y Cyngor yn cymryd camau i leihau'r gorwariant hwn, ond yn ôl y sefyllfa ar hyn o bryd, ceir potensial am ostyngiad o £1.97 miliwn arall i'r cronfeydd erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Wrth bennu cyllideb 2018-19, nodwyd a chymeradwywyd saithdeg o Brosiectau Effeithlonrwydd Ariannol gan geisio cyflawni gwerth £3.78 miliwn o arbedion. Mae adroddiad mis 6 yn darogan y bydd arbedion gwerth £3.49 miliwn (92%) o'r targed hwn yn cael eu cyflawni.

### Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn nodi pwysau sylweddol o ran cost, ac mae'n awgrymu bod gweithredu yn yr un modd ag yn y gorffennol yn annhebygol o fod yn hyfyw.

Mae heriau ariannol sylweddol o hyd i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, ond fel y mae'r crynodeb uchod yn dangos, mae'r heriau yn arbennig o sylweddol ym Mlaenau Gwent. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi 'bwlch cyllideb' o

£18.4 miliwn dros y 4 blynedd o 2018-19 hyd 2021-22, ac o gofio lefel y cronfeydd sydd ar gael, mae hyn yn awgrymu bod parhau i weithredu yn yr un modd ag yn y gorffennol yn annhebygol o fod yn hyfyw. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor yn rhan o'n gwaith Cadernid Ariannol a byddwn yn monitro sefyllfa ariannol y Cyngor yn fanwl yn ystod y 12 mis nesaf a thu hwnt.

## Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon neu systemau ariannol allweddol

Rwyf wedi dechrau archwilio grantiau 2017-18. Cafwyd newid allweddol eleni gan fod nifer o'r grantiau blaenorol wedi'u cyfuno yn un Datganiad Cryno. Byddaf yn adrodd canlyniadau ein gwaith ar y grantiau tua dechrau 2019 pan fo'r rhaglen o waith ardystio wedi'i chwblhau. Ar sail fy ngwaith ar y grantiau hyd yn hyn, nid wyf wedi nodi unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon neu systemau ariannol allweddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**cc** **Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr**
**Rhian Hayden, Swyddog Adran 151**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Crynodeb o’r cynigion ar gyfer gwella sy’n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi’u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi’r AGB diwethaf.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Hydref 2018 | **Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd** | A1 Mae’r rhagamcanion ar gyfer y tri phrosiect gwastraff gweddilliol yn y Rhaglen yn tybio y bydd cyfanswm y gwastraff gweddilliol yn cynyddu hyd ddiwedd y contractau, ar draws y 14 o gynghorau sy’n cymryd rhan. Os yw’r rhagamcanion hyn yn gywir, byddai angen i rywbeth mawr ddigwydd ar ôl 2040 er mwyn cyrraedd sefyllfa dim gwastraff ar draws yr ardaloedd cyngor hyn erbyn 2050. Os nad yw’r rhagamcanion yn gywir, ceir risg y bydd cynghorau’n talu am gapasiti na fydd ei angen arnynt. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:**<br>• **wrth adolygu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, ystyried sut mae ei huchelgais o sicrhau na cheir unrhyw wastraff gweddilliol erbyn 2050 yn gyson â’r rhagamcanion cyfredol ar gyfer trin gwastraff gweddilliol; a**<br>• **gweithio gyda chynghorau i ystyried effaith newidiadau mewn rhagamcanion ar gost debygol prosiectau gwastraff gweddilliol, ac unrhyw gamau lliniarol y mae angen eu cymryd i reoli’r costau hyn.** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | A2 Hyd yma, mae cymorth rhaglen Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu a chaffael prosiectau. Gan fod y rhan fwyaf o'r prosiectau bellach yn weithredol, mae'r sylw wedi troi tuag at reoli contractau. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i oruchwylio prosiectau yn ystod y cam gweithredol drwy:**<br>• **adeiladu ar ei model presennol, lle mae'n darparu unigolion profiadol i gynorthwyo i ddatblygu a chaffael prosiectau, a gwneud yn siŵr bod mewnbwn ar gael er mwyn cynorthwyo i reoli contractau os oes angen;**<br>• **nodi ei disgwyliadau gan gynghorau o ran rheoli contractau;**<br>• **sicrhau bod partneriaethau'n ailystyried eu rhagamcanion gwastraff a'r risgiau cysylltiedig bob hyn a hyn, er enghraifft er mwyn adlewyrchu amcanestyniadau cyfredol o'r boblogaeth neu ragolygon economaidd; a**<br>• **chael gwybodaeth reoli sylfaenol gan bartneriaethau ynghylch ffioedd clwyd a daladwy, faint o wastraff a anfonwyd i'r cyfleusterau ac ansawdd gwasanaeth y contractwr.** |
| Tachwedd 2018 | Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig | A1 O ganlyniad i newidiadau economaidd-gymdeithasol, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy:**<br>• **adfywio rhaglenni grant gwledig er mwyn creu strwythurau ariannol cynaliadwy, gyda dyraniadau aml-flwyddyn; a** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • **chynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy raglenni cymorth busnes ac addysg oedolion mwy effeithiol, wedi eu targedu.**<br>A2 Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31). **Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:**<br>• **asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a**<br>• **sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.**<br>A3 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). **Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:**<br>• **sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a**<br>• **defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau.**<br>A4 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). **Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:**<br>• **weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;**<br>• **darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;**<br>• **gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;**<br>• **annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;**<br>• **galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a**<br>• **gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli.** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2018 | **Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol** | A1 O waith meincnodi, gwelwyd bod yr amrywiaeth yng nghost rhai gwasanaethau rheoli gwastraff yn destun syndod (paragraffau 1.31-1.39). **Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i gael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd yr amrywio mewn gwariant ar wasanaethau rheoli gwastraff sydd i bob pwrpas yr un peth, a sicrhau y rhoddir cyfrif am gostau rheoli gwastraff mewn modd cyson.**<br>A2 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod ei Glasbrint Casgliadau, o'i weithredu'n optimaidd, yn cynnig y dull mwyaf cost-effeithiol yn gyffredinol o gasglu adnoddau ailgylchadwy, ond yn bwriadu gwneud gwaith dadansoddi pellach (paragraffau 1.40-1.51). **Wrth ddadansoddi ymhellach er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd y gwahaniaethau yn y costau a adroddwyd gan gynghorau, a'r effaith ar gostau lle mabwysiadwyd y Glasbrint Casgliadau gan y cynghorau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru:**<br>• **archwilio sut y gallai'r gost o gasglu deunyddiau ailgylchadwy sych effeithio ar gyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff ar garreg y drws i aelwydydd; a**<br>• **chymharu'r costau gwirioneddol â'r costau a fodelwyd yn flaenorol yn rhan o'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Glasbrint Casgliadau, yn achos cynghorau sydd bellach yn gweithredu'r Glasbrint Casgliadau.**<br>A3 Yn lle'r targedau ailgylchu cyfredol sy'n seiliedig ar bwysau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried opsiynau amgen a all ddangos yn well sut y mae'n cyrraedd y nod o ran ei hôl troed ecolegol a lleihau allyriadau carbon (paragraffau 2.38-2.45). **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mesurau perfformiad i ddisodli neu ategu'r targed cyfredol i ailgylchu, compostio ac** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **ailddefnyddio gwastraff. Pwrpas y mesurau hynny fyddai canolbwyntio o'r newydd wrth ailgylchu ar yr adnoddau gwastraff sy'n cael yr effaith fwyaf o ran lleihau carbon ac/neu sydd yn brin. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried fforddiadwyedd casglu data ar gyfer unrhyw ddull arall o fesur.**<br>A4 Wrth ailwampio Tuag at Ddyfodol Diwastraff, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos bod y manteision cynaliadwyedd ehangach a geisir drwy ailgylchu trefol yn cynnig gwerth, ac na ellir defnyddio dulliau eraill rhwyddach a rhatach i'w sicrhau, gan gynnwys ymyraethau rheoli gwastraff eraill, ond heb gyfyngu i hynny o reidrwydd (paragraffau 2.52-2.53). **Yn y strategaeth gwastraff ddiwygiedig, dylai Llywodraeth Cymru ddangos ei bod hi nid yn unig yn bosibl i ailgylchu cyfran fwy o wastraff trefol, ond y bydd gwneud hynny'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddi tuag at gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy.** |
| Tachwedd 2018 | Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol | A1 Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. **At hynny, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.**<br>A2 Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. **Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | **cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:**<br>• **nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;**<br>• **gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;**<br>• **nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;**<br>• **sicrhau bod eu polisïau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a**<br>• **cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.** |
| Rhagfyr 2018 | Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata | **A1** **Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd creu diwylliant data cryf ac arweinyddiaeth eglur i wneud gwell defnydd o ddata.** Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:<br>• sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol;<br>• sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd; |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth ddyblyg; a<br>• chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau.<br>A2 **Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid.** Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:<br>• darparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.<br>A3 **Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.** Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:<br>• dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad.<br>**A4 Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw.** Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:<br>• gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a<br>• sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael. |
| Mawrth 2019 | Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff | **A1 Cynyddu'r pwyslais ar atal gwastraff er mwyn adlewyrchu amcanion cyffredinol Tuag at Ddyfodol Diwastraff**<br>Awgryma'r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir bod cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff Llywodraeth Cymru. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:<br>a) ailedrych ar y flaenoriaeth berthnasol y mae'n ei rhoi i ailgylchu ac atal gwastraff fel rhan o'i hadolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff;<br>b) gosod y disgwyliadau ar wahanol sefydliadau a sectorau ar gyfer atal gwastraff yn eglur; ac<br>c) ailedrych ar ei thargedau atal gwastraff cyffredinol a'r ffordd y mae wedi mynd ati i'w monitro, gan ystyried y cynnydd hyd yn hyn, enghreifftiau o wledydd eraill ac yng nghyd-destun yr amcanestyniadau cyfredol am wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu hyd at 2050.<br><br>**A2 Gwella data ar wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | Mae Llywodraeth Cymru yn bartner mewn gwaith cychwynnol i asesu dichonoldeb datblygu datrysiad digidol newydd i olrhain yr holl wastraff. Os na fydd yr opsiwn dewisol hwn yn llwyddo, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio costau a buddion opsiynau eraill i wella'r data ar wastraff nad yw'n drefol yng Nghymru, gan gynnwys pwerau ychwanegol i ofyn am ddata gwastraff gan fusnesau.<br><br>**A3 Gwella cyfrifoldeb cynhyrchwyr a defnyddio ysgogiadau mwy cyfreithiol, ariannol a chyllidol**<br>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd i ddylanwadu ar atal gwastraff drwy ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol. Gall hefyd ddylanwadu ar newidiadau ar lefel y DU, lle nad yw materion cyllidol wedi eu datganoli. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen darpariaethau i ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr ac oes angen defnyddio pwerau ariannol fel amodau grant, mesurau cyllidol a thaliadau a chymelliadau cwsmeriaid i hyrwyddo a blaenoriaethu'r gwaith o atal gwastraff. |
| Mehefin 2019 | Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru | A1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio ac yn dangos pa mor heriol yw hi i awdurdodau cynllunio lleol gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol mewn dewisiadau a phenderfyniadau. **Er mwyn gwella'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'u perchnogaeth o benderfyniadau rydym yn argymell bod**:<br>**Awdurdodau cynllunio lleol**:<br>• yn profi'r arferion ymgysylltu a chynnwys presennol ac yn ystyried yr ystod lawn o'r dewisiadau eraill sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau ymgysylltu yn addas at eu diben;<br>• yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i gynnwys ac ymgysylltu â chymunedau a thrigolion wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau cynllunio; ac |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • yn gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar adegau priodol, cylchdroi cyfarfodydd er mwyn eu cynnal mewn ardaloedd sy'n destun datblygiad arfaethedig, gweddarlledu cyfarfodydd a rhoi cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgor.<br>**Llywodraeth Cymru**:<br>• – yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygiad 2012 a diweddaru'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.<br>A2 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi bod yn destun gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn cael trafferthion i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. **I wella cydnerthedd, rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:**<br>• yn adolygu eu trefnau o bennu ffioedd rheoli adeiladu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn adlewyrchu'n well y gwir gost o ddarparu'r gwasanaethau hyn a gwneud y gwasanaeth yn un sy'n ariannu ei hun; a<br>• gwella capasiti drwy weithio'n rhanbarthol i:<br>– integreiddio gwasanaethau i fynd i'r afael â bylchau arbenigaethau;<br>– datblygu canllawiau cynllunio ychwanegol ar y cyd; a<br>– datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol yn rhanbarthol ac mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio eraill.<br><br>A3 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygiadau wedi'i hadlewyrchu yn y ffioedd a bennir ar gyfer y gwasanaethau hyn ac mae'r cynnydd o ran datblygu ymateb rhanbarthol er mwyn |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| | | cryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:**<br>• yn adolygu'r ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn adlewyrchu'n well y gwir gost o ddarparu'r gwasanaethau hyn; ac<br>• yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.<br><br>A4 Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio o'u cymharu â mesurau cenedlaethol**. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio drwy:**<br>• adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio yn canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod eu hunain;<br>• adolygu templedi adrodd i sicrhau eu bod yn glir ac yn ddiamwys i helpu i arwain y prosesau gwneud penderfyniadau ac i leihau nifer yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a<br>• gorfodi safonau ymddygiad yr awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.<br><br>A5 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi swyddogaeth ganolog cynllunio wrth gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. **Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:**<br>• yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol glir sy'n dangos sut y mae cynllunio yn cyfrannu at wella llesiant; |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • yn darparu hyfforddiant llesiant rheolaidd a phriodol i aelodau'r pwyllgor i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;<br>• pennu mesurau priodol ar gyfer gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; a chyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i farnu effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru